**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025**

Cystadleuaeth 131 – Llefaru Unigol Bl. 7, 8 a 9

# Draig Wen, Draig Goch, Myrddin ap Dafydd

Mae golau'r bore
yn lledu uwch fy mhen
ond mae'r gaeaf gwelw
yn nharth y Ddraig Fawr Wen.

Muriau chwâl
lle bu ei chrafanc ar waith,
carnedd ar fynydd
lle bu ein hanes a'n hiaith.

Barrug mewn mynwent
yn brathu enwau ar faen
lle bu chwarel neu lofa
neu ryfel, ryw oes o'r blaen.

Ei hanadl angau
ar wyngalch bythynnod oer
ac argae'r chwalfa
yn cronni llyn o boer.

Mae'n llygadu esgyrn
y wlad sydd gennym ar ôl,
heb drefn na chyfraith
na chlust na phiniwn pôl.

Ond gwawr o gochni
sy'n cynnau yn y glyn
a chynffon o fwg
sy'n hollti'r bryniau gwyn.

Ein Draig sy'n deffro
o drymgwsg ein hogofâu
a'i hanthem sy'n atsain:
'o bydded i'r bore barhau'.

Myrddin ap Dafydd